Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

28 Gorffennaf 2009

Dysgwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig sydd angen cefnogaeth gyda'u medrau iaith Saesneg yn methu â chadw i fyny

Nid oes gan staff addysgu yng Nghymru y medrau sydd eu hangen i gefnogi dysgwyr rhwng 16 a 19 oed o gefndiroedd lleiafrif ethnig sydd angen cymorth gyda Saesneg, yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn heddiw.

Mae'r arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi canfod nad oes digon o staff cymwysedig sy'n gallu cefnogi dysgwyr y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol neu'n ail iaith iddynt. Oherwydd hynny, mae mwyafrif llethol y dysgwyr hyn yn methu â chadw i fyny â chyflymder gwersi neu sesiynau hyfforddiant.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *"Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael yr iaith Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr a sectorau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon a dysgwyr o'r farn bod cymorth cyn-16 a chymorth mewn addysg uwch yn strwythuredig ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw cymorth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed wedi'i strwythuro ac nid oes iddo ffocws nac arfarniad cenedlaethol i lywio'r gwaith o gynllunio gwelliannau yn y dyfodol. Mae angen arweiniad strategol clir i ddod â'r amrywiol asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn at ei gilydd."*

Aiff Estyn ymlaen i adrodd nad oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ym mhob sector unrhyw bolisi ffurfiol na chynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael ag anghenion y

dysgwyr hyn yn effeithiol. Mewn llawer o achosion, canfu arolygwyr hefyd nad yw colegau addysg bellach, colegau chweched dosbarth, unedau chweched dosbarth a darparwyr dysgu yn y gwaith bob amser yn ymwybodol faint o'r dysgwyr hyn sydd yn eu sefydliadau ar unrhyw adeg benodol.

Mae arolygwyr Estyn yn annog darparwyr i wella eu medrau addysgu i gefnogi dysgwyr ag anghenion caffael yr iaith Saesneg yn ogystal â chefnogi dysgwyr wrth iddynt symud rhwng gwahanol lefelau astudio.

Mae'r asesiad cychwynnol o'r math o gymorth sydd ei angen ar y dysgwyr hyn yn amrywio rhwng darparwyr ac, mewn llawer o'r sefydliadau, mae'r asesiad yn anffurfiol, nid oes strwythur iddo ac nid yw'n rhoi digon o wybodaeth i lywio'r gwaith o gynllunio cymorth dysgu. Mae hyn wedi arwain at athrawon a dysgwyr fel ei gilydd yn methu ag adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol ac, i lawer o ddysgwyr, maent yn cael profiad o 'ostyngiad' yn eu gwybodaeth a'u hyder, a'u gallu i ddefnyddio a throsglwyddo eu medrau iaith Saesneg.

Mae llawer o ysgolion wedi canfod bod rhaglenni mentora, yn cynnwys staff, cymheiriaid a gwirfoddolwyr allanol, wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi ac ysgogi dysgwyr. Fodd bynnag, mae bron pob darparwr yn cael trafferth darparu digon o fentoriaid ar y cyllidebau y maent yn eu derbyn. Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r modd y caiff cyllid ei ddyrannu i gefnogi'r dysgwyr hyn, gan y canfuwyd bod y strwythur ariannu presennol yn cael effaith niweidiol ar ddargadwedd, cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
E-bost: cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
Ffôn: 02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed ag anghenion caffael yr iaith Saesneg?' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn gyflawn yn www.estyn.gov.uk

- Diben yr adroddiad cylch gwaith hwn yw ceisio mesur lefel yr angen mewn perthynas â chaffael Saesneg ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed sydd mewn addysg a hyfforddiant.

- Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig y mae Saesneg yn iaith ychwanegol neu'n ail iaith iddynt. Mae'n ystyried anghenion y grŵp penodol hwn o ddysgwyr ac yn archwilio'r modd y cânt eu cefnogi gyda'u hastudiaethau. Mae'n nodi ac yn amlygu materion y mae angen mynd i'r afael â nhw neu fylchau y mae angen eu llenwi.

- Dewiswyd pedwar sector ar gyfer samplau: colegau addysgu bellach, colegau chweched dosbarth, unedau chweched dosbarth a dysgu yn y gwaith. Cymerwyd tystiolaeth hefyd o rwydweithiau 14-19, Gyrfa Cymru a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (GAALlau).

- Estyn yw'r arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.